# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 20 Mawrth 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 198(v4)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cwymp y cwmni adeiladu Dawnus, sydd wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

**Gofyn i Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**

**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Fargen Ddinesig Bae Abertawe, yn dilyn cyhoeddi adolygiad annibynnol Bargen Ddinesig Bae Abertawe?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)

**NDM7017** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 17.3 a 17.13(ii), yn ethol Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn lle David Rowlands (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig).

## 5 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

(15 munud)

**NDM7003** – Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

'Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)'

**Dogfen Ategol**

Datganiad y Llywydd

## 6 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol

(60 munud)

**NDM6998** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei Ymchwiliad: Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2019.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 13 Mawrth 2019.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Gradd ar Wahân? Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach

(60 munud)

**NDM6996** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Gradd ar Wahân? Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Rhagfyr 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 1 Chwefror 2019.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Y Cwrdiaid yn Nhwrci

(30 munud)

**NDM6999** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi, er bod materion tramor yn fater a gedwir i Lywodraeth a Senedd y DU ar hyn o bryd, mae adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu: "“The Welsh Ministers, the First Minister and the Counsel General may make appropriate representations about any matter affecting Wales”.

2. Yn cydnabod y gymuned Cwrdaidd sylweddol yng Nghymru.

3. Yn nodi bod preswylydd o Gymru - İmam Sis, dyn Cwraidd ifanc - ar streic newyn amhenodol, ddigyfaddawd o 17 Rhagfyr 2018, a ddechreuwyd i brotestio yn erbyn ynysu'r arweinydd Cwrdaidd Abdullah Öcalan sydd wedi'i garcharu gan Dwrci ers 1999 o dan amodau sydd, yn ôl pob deall, yn mynd yn groes i rwymedigaethau cyfreithiol gwladwriaeth Twrci mewn perthynas â hawliau dynol.

4. Yn nodi bod streiciau newyn yn digwydd ledled Ewrop a'r byd, gan gynnwys gan Leyla Güven, aelod etholedig o Senedd Twrci.

5. Yn nodi bod Twrci yn un o lofnodwyr sawl cytuniad hawliau dynol rhyngwladol, gan gynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel aelod o Gyngor Ewrop.

6. Yn mynegi ei bryder ynghylch y rhesymau dros y streiciau newyn.

7. Yn cydnabod mai nod y streiciau newyn yn y pen draw yw gweld ateb heddychlon, gwleidyddol i'r cwestiwn Cwrdaidd yn Nhwrci.

8. Yn cadarnhau pwysigrwydd cynnal rhwymedigaethau hawliau dynol yn Nhwrci.

9. Yn galw ar Lywodraeth Cymru, ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i ysgrifennu at y Pwyllgor i Atal Artaith a Thriniaeth Annynol neu Ddiraddiol neu Gosb yn galw ar y Pwyllgor i ymweld â Charchar Imrali i asesu amodau Abdullah Öcalan.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ym mhwynt 3, dileu 'ynysu'r arweinydd Cwrdaidd' a rhoi yn ei le 'ynysu arweinydd Cwrdaidd y PKK (Plaid Gweithwyr Cwrdistan)'.

**Gwelliant 2 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod y PKK yn sefydliad terfysgol a waharddwyd yn y DU, yr Undeb Ewropeaidd, ac Unol Daleithiau America.

Yn condemnio pob gweithred derfysgol a gyflawnir gan y PKK ac yn cydnabod y dioddefwyr a'r sifiliaid a laddwyd ac a gafodd eu dal yn eu hymosodiadau.

Yn cydnabod hawl Twrci i amddiffyn ei hun rhag ymosodiadau terfysgol gan y PKK.

**Gwelliant 3 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu pwynt 7 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod mai nod o streicwyr newyn yw galluogi Abdullah Öcalan i gael gafael ar gynrychiolaeth gyfreithiol a chysylltu â'i deulu.

**Gwelliant 4 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 8 ac ailrifo'n unol â hynny:

Yn nodi fod Ysgrifennydd Tramor Llywodraeth y DU a Llysgennad EM â Thwrci wedi pwysleisio wrth Lywodraeth Twrci yr angen i barchu hawliau dynol, osgoi anafu sifiliaid a dychwelyd at y broses heddwch.

**Gwelliant 5 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yy galw ar y PKK i roi'r gorau i derfysgaeth fel modd o hybu ei amcanion a dychwelyd at y broses heddwch.

## 9 Dadl Plaid Cymru - Yr ymgyrch menywod yn erbyn anghydraddoldeb pensiwn y wladwriaeth

(30 munud)

**NDM7000 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod ymgyrch barhaus menywod yn erbyn anghydraddoldeb pensiwn y wladwriaeth;

2. Yn galw ar Lywodraeth y DU i wneud trefniadau pensiwn gwladol trosiannol teg i bob menyw a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951, sydd wedi gorfod ysgwyddo baich y cynnydd yn annheg, o ran oedran pensiwn y wladwriaeth (SPA) gyda diffyg hysbysiad priodol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i gefnogi'r ymgyrch WASPI.

4. Yn galw ar y Cwnsler Cyffredinol i ystyried pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd mewn perthynas â'r ymgyfreitha disgwyliedig yn erbyn yr Adran Gwaith a Phensiynau am y camdrafod honedig o godi oedran pensiwn y wladwriaeth i fenywod a aned yn y 1950au.

**Cefnogwr**
David Rowlands (Dwyrain De Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwyntiau 2 a 4 ac ailrifo'n unol â hynny.

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Llywodraethau olynol y DU wedi cyfathrebu gyda menywod yr effeithiwyd arnynt ers y newidiadau i oedran pensiwn menywod ers Deddf Pensiynau 1995 a Deddf Pensiynau 2007 a bod ymgynghoriad cyhoeddus a dadleuon helaeth wedi cael eu cynnal yn y Senedd o ran cynnydd ychwanegol i oedran pensiwn y wladwriaeth yn 2011.

'Deddf Pesiynau 1995' (Saesneg yn unig)

'Deddf Pensiynau 2007' (Saesneg yn unig)

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6997** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Brwydro dros Wasanaethau'r Dyfodol - yr achos dros warchod gwasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 26 Mawrth 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13/03/2019 i'w hateb ar 20/03/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

1 OAQ53610

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog mwy o fusnesau lleol yng Ngorllewin De Cymru i fanteisio ar bŵer deallusrwydd artiffisial?

**Leanne Wood** *Rhondda*

2 OAQ53615

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y cafodd ystyriaethau amgylcheddol eu hystyried wrth ddatblygu cynllun gweithredu economaidd Llywodraeth Cymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

3 OAQ53630

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r sector modurol?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

4 OAQ53618

**(e)**

Pa ddefnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r modd o ganfod teithiau y rhai sy'n cymudo i Gasnewydd a Chaerdydd yn y car fel ffordd o lywio darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn y dyfodol?

**Hefin David** *Caerffili*

5 OAQ53627

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision canolbwyntio ar yr economi sylfaenol?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

6 OAQ53598

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith a gaiff trosglwyddo i gymdeithas ddigidol ar drigolion yn y canolbarth?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

7 OAQ53628

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at roi llain galed ar hyd yr A55?

**David Rees** *Aberafan*

8 OAQ53624

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i adfywio economi Cwm Afan?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

9 OAQ53607

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl yr economi sylfaenol o ran helpu i fynd i'r afael â thlodi ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OAQ53622

**(e)**

Sut y bydd y Gweinidog yn gwerthuso gwaith Tasglu'r Cymoedd?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

11 OAQ53604

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gynllun twf y gogledd o safbwynt parciau busnes?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

12 OAQ53593

**(w)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael â'r Gweinidog Cyllid am bwysigrwydd polisi caffael fel arf economaidd?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

13 OAQ53613

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau'r A465 yn ddiweddar rhwng y Rhigos a Glyn-nedd?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

14 OAQ53608

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fargeinion dinesig yng Ngorllewin De Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

15 OAQ53614

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar godi lefelau cyflogau yng Nghymru?

# Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

1 OAQ53632

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith Brexit ar sector y celfyddydau yn Islwyn?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

2 OAQ53629

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit heb gytundeb?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

3 OAQ53597

**(e)**

Beth yw blaenoriaethau allweddol y Cwnsler Cyffredinol yn y cyfnod cyn Brexit?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

4 OAQ53590

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r Gweinidog Addysg ynghylch dyfodol cymwysterau safonol yn Ewrop?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

5 OAQ53617

**(w)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi diweddariad am ddyfodol cynlluniau sydd bron â chael eu cwblhau ac sydd ar hyn o bryd yn derbyn cyllid strwythurol yr UE?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

6 OAQ53605

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o baratoadau Brexit llywodraeth leol yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

7 OAQ53619

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'i swyddog cyfatebol yn Iwerddon ynghylch effaith unrhyw setliad Brexit ar fasnach gyda Chymru yn y dyfodol?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OAQ53623

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch trefniadau i ddiogelu gwasanaethau iechyd a gofal rhag effaith Brexit heb gytundeb?

**David Rees** *Aberafan*

9 OAQ53626

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am gapasiti Llywodraeth Cymru i reoli'r broses o ymadael â'r UE heb gytundeb?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

10 OAQ53592

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o gyhoeddiad Llywodraeth y DU na fydd unrhyw ffin ffisegol yn Iwerddon pe bai Brexit heb gytundeb yn digwydd?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

11 OAQ53594

**(w)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r effaith a gaiff gadael yr UE ar amaethyddiaeth?

**David Rees** *Aberafan*

12 OAQ53625

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am barodrwydd Cymru ar gyfer y posibilrwydd o adael yr UE heb gytundeb?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

13 OAQ53612

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu trefniadau ar gyfer gwiriadau tollau ar nwyddau sy'n dod i mewn i Gymru pe bai Brexit heb gytundeb yn digwydd?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

14 OAQ53595

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth amaethyddol ar ôl Brexit?

**Leanne Wood** *Rhondda*

15 OAQ53616

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit?